| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **30 Mehefin 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Huw Jones/Rebecca Maxwell** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Teitl:** | **Cynlluniau Tref ac Ardal** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ym mis Ionawr 2015, cytunodd y Cabinet ar argymhellion i wella sut mae Cynlluniau Tref ac Ardal yn cael eu rheoli a'u darparu. Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad y prosiectau Cynllun Tref ac Ardal sy'n weddill a gyflwynwyd gan Aelodau lleol ar gyfer cyllid.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gwneud argymhellion i'r Cabinet ar pa brosiectau sy'n weddill o Gynlluniau Tref ac Ardal ddylai gael cyllid gan y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gwahoddir y Cabinet i gymeradwyo'r dyraniadau cyllid a argymhellir yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cafodd Cynlluniau Tref eu cynnig yn wreiddiol gan y Cyngor fel modd o nodi blaenoriaethau lleol a nodi camau gweithredu ar gyfer eu datblygu. Yn ystod 2013/14, cafodd y Cynlluniau Tref eu hymestyn i gynnwys cymunedau gwledig cyfagos i roi gwasanaeth llawn ar draws y Sir. Cymeradwywyd y cynlluniau wedi'u hehangu gan y Cabinet rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Mawrth 2014.

Yn ystod y broses o ehangu'r Cynlluniau, codwyd pryderon am eglurder yr amcanion polisi a chysondeb y broses ar gyfer datblygu'r Cynlluniau. Roedd Aelodau hefyd yn awyddus, ar adegau o gyfyngiadau cyllidebol cynyddol, bod blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys o fewn cynlluniau yn gallu dangos prosiectau hyfyw, gwerth chweil sy'n rhoi gwerth am arian er budd preswylwyr lleol.

Cynhaliwyd adolygiad o'r broses Cynlluniau Tref ac Ardal yn ystod 2014 a chymeradwywyd ei argymhellion gan y Cabinet ym mis Ionawr 2015. Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd y Cabinet y byddai Grwpiau Ardal yr Aelodau yn cael eu gwahodd i enwebu unrhyw Gynlluniau Tref ac Ardal sy'n weddill ar gyfer cyllid gan y Cyngor ac y byddai'r rhain yn cael eu gwerthuso yn erbyn meini prawf â'r bwriad o brofi mantais,

gwerth am arian a dull cyflenwi. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau'r gwerthusiad hwnnw.
Ers mis Ionawr, mae Aelodau lleol wedi'u cefnogi i ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau unigol y maent yn credu sy'n flaenoriaethau ar gyfer eu cymunedau. Cafodd yr holl gynigion eu hadolygu gan Wasanaethau i wirio costau ac ymarferoldeb.  Roedd gofyn i bob cynnig fod â swyddog neu gynrychiolydd cymunedol a enwir sy'n gyfrifol am sicrhau bod y prosiect yn cael ei ddarparu.

Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, gwerthuswyd y cynigion unigol gan 9 Cefnogwr Cynlluniau Tref ac Ardal y Cyngor fel panel. Mae'r meini prawf ar gyfer asesu ynghlwm fel Atodiad 2.

Cyfarfu'r Cefnogwyr ddwywaith gan sgorio pob cynnig yn erbyn y meini prawf y cytunwyd arnynt. Nodir canlyniadau'r broses yn Atodiad 1. Mae dyraniad wrth gefn wedi'i wneud ar gyfer prosiectau sy'n deillio o Gynllun Tref Bodelwyddan pan fydd ar ei ffurf derfynol.

Yn ogystal â gwneud argymhellion ariannu, cytunodd y grŵp Cefnogwyr y dylid pennu dyddiadau adolygu ar gyfer pob prosiect i ganiatáu i arian gael ei ailddyrannu os, am ba reswm bynnag, y bydd y prosiectau yn methu â symud ymlaen. Dangosir y dyddiadau adolygu a argymhellir yn erbyn pob prosiect.

Ni argymhellwyd 5 o gynigion prosiect ar gyfer cyllid. Darperir cymorth i gymunedau ac Aelodau lleol i nodi a allai unrhyw ffynonellau allanol eraill o gyllid alluogi prosiectau i symud ymlaen heb gyllid gan y Cyngor. Tynnwyd 2 brosiect yn ôl.

Bydd gwaith monitro cynnydd o ran gweithredu prosiectau Cynllun Tref ac Ardal y cytunwyd arnynt yn cael ei wneud mewn Grwpiau Ardal yr Aelodau, gyda chefnogaeth gan Dîm Cynllunio Strategol y Cyngor. Bydd prosiectau cymeradwy yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaeth perthnasol er mwyn sicrhau darpariaeth yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Cynlluniau Tref ac Ardal yn galluogi cyflawni'r amcan corfforaethol o ddod â'r Cyngor yn nes at y gymuned. Maent hefyd yn system bwysig ar gyfer disgrifio sut yr ymdrinnir â blaenoriaethau corfforaethol cyffredinol y Cyngor ar lefel lleol gan gyfeirio at anghenion a dyheadau cymunedau lleol. Roedd aliniad â blaenoriaethau corfforaethol yn un o'r meini prawf asesu.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Neilltuwyd cyllideb i weithredu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Cynlluniau Tref ac Ardal. Cytunodd y Cyngor ym mis Chwefror i ddileu'r swm ychwanegol blynyddol at y dyraniad hwn ac yn lle hynny cytuno ar set derfynol o brosiectau i wario'r swm sy'n weddill cyn diwedd tymor y Cyngor yn 2017.

Cyfanswm yr arian a roddwyd tuag at Gynlluniau Tref ac Ardal ers eu sefydlu yw £1.94M. Yn dilyn penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet ym mis Ionawr 2015, roedd balans o tua £821k yn aros i gael ei ddyrannu. Gwnaed dyraniad dilynol o £20k i brosiect llai o gost a oedd wedi'i werthuso a'i wrthod eisoes ar sail costau. Roedd tanwariant pellach ar brosiectau cymeradwy eraill a ddychwelwyd i'r gronfa gyllido wedi gadael balans o tua £815k i'w ddyrannu yn yr ymarfer hwn. Mae’r swm llawn wedi’i ddyrannu nawr gydag unrhyw danwario bach arall i’w ychwanegu at y lwfans wrth gefn ar gyfer prosiectau Cynllun Tref Bodelwyddan.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Ni chredir bod angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y cam hwn. Bydd disgwyl i brosiectau unigol ystyried effeithiau ar gydraddoldeb wrth eu gweithredu.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Datblygwyd Cynlluniau Tref ac Ardal gan Aelod etholedig lleol drwy Grwpiau Ardal yr Aelodau, yn seiliedig ar ymgynghoriadau â chymunedau lleol. Roedd yr Adolygiad o Gynlluniau Tref ac Ardal yn ymgysylltu gydag ystod o fudd-ddeiliaid y Cyngor, gan gynnwys sampl o Gefnogwyr presennol Cynlluniau a'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau.

Mae'r ymarfer gwerthuso diweddaraf hwn wedi bod yn seiliedig ar brosiectau a gynigiwyd gan Aelodau lleol ac a adolygwyd i ddechrau gan Grwpiau Ardal yr Aelodau. Mae’r Cefnogwyr Cynlluniau Tref ac Ardal wedi gwerthuso’r cynigion ac maent yn dod o bob un o ardaloedd Grwpiau Ardal yr Aelodau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y set o brosiectau a argymhellwyd i'w cymeradwyo o fewn y lefel y cytunwyd arni o £815k ac mae'n bwysig bod y prosiectau yn cael eu cyflawni o fewn y terfyn ariannu. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i fonitro gwariant y prosiect.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae adroddiadau blaenorol wedi amlygu risgiau sy'n ymwneud â chodi disgwyliadau lleol mewn modd afrealistig a methiant i gyflawni. Cynlluniwyd y trefniadau diwygiedig ar gyfer Cynlluniau Tref ac Ardal i liniaru'r risgiau hyn. Bydd monitro rheolaidd yn digwydd drwy Grwpiau Ardal yr Aelodau gyda chefnogaeth gan y Tîm Cynllunio Strategol. Mae arweinwyr prosiectau dynodedig wedi'u nodi ar gyfer pob prosiect a bydd cerrig milltir clir yn cael eu sefydlu. Pennwyd dyddiadau adolygu ar gyfer pob prosiect a thynnir cyllid yn ôl ar gyfer unrhyw brosiect sy’n methu datblygu, er mwyn ei ailddyrannu i brosiectau neu flaenoriaethau eraill.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

**Atodiad 1**

| **Prosiect** | **Sgôr %** | **Cyllid TAP a Gytunwyd** | **Arian Cyfatebol** | **Dyddiad Adolygu** |
|---|---|---|---|---|
| DYFRDWY – Ysgol Betws GG/Canolfan Gymunedol | 90 | £32,000 | £37,500 | Ebrill 2016 |
| RHUTHUN – Pafiliwn Rhewl | 90 | £25,000 | £18,000 | Rhag 2015 |
| Y RHYL – Gwelliannau i Amddiffyn yr Arfordir | 85 | £96,000 | £412,000 | Rhag 2015 |
| DINBYCH – Amnewid Cylchfan Pwll y Grawys | 85 | £20,000 | £5,000 | Medi 2015 |
| DYFRDWY – Prosiect Canolfan Llys Owain/Pafiliwn | 80 | £50,000 | £190,000 | Rhag 2015 |
| ELWY - Llyfrgell Rhuddlan/Canolfan Gymunedol | 80 | £100,000 | £0 | Rhag 2015 |
| ELWY - Llyfrgell Llanelwy/Canolfan Gymunedol | 80 | £100,000 | £352,000 | Rhag 2015 |
| PRESTATYN – Prosiectau Gateways | 80 | £80,000 | £100,000 | Rhag 2015 |
| DYFRDWY – Gwelliannau Wernffrwd | 75 | £70,000 | £523,000 | Rhag 2015 |
| PRESTATYN – Mannau Chwarae a Llwybrau Gallt Melyd | 75 | £38,500 | £38,500 | Rhag 2015 |
| DYFRDWY – Cegin Canolfan Gymunedol Gwyddelwern | 70 | £7,575 | £7,425 | Rhag 2015 |
| DINBYCH – Atgyweiriadau Lôn Pendref/Maes Glas | 70 | £16,000 | £4,000 | Medi 2015 |
| DYFRDWY – Bryneglwys Canolfan Iâl | 70 | £25,000 | £12,000 | Rhag 2015 |
| RHUTHUN – Estyniad i Faes Parcio Loggerheads | 65 | £80,000 | £170,000 | Medi 2015 |
| DYFRDWY – Llwybr Cysylltu Llandysilio | 65 | £32,000 | £96,000 | Rhag 2015 |
| DINBYCH – Cae’r Brenin George, Nantglyn | 65 | £13,120 | £4,000 | Medi 2015 |
| DYFRDWY – Caeau Chwarae Llandrillo | 60 | £7,000 | £35,000 | Rhag 2015 |
| DINBYCH – Caffi Carriage Works | 60 | £1,000 | £190,000 | Rhag 2015 |
| ELWY – Cilfan Cefn Meiriadog | 60 | £9,855 | £0 | Rhag 2015 |
| Arian At Raid ar gyfer Bodelwyddan | | £11,950 | I'w gadarnhau | Ebrill 2016 |
| **Cyfanswm** | | **£815,000** | | |
| | | | | |
| *Heb ei gymeradwyo* | | | | |
| *DINBYCH – Estyniad i Lwybr Troed Aberchwiler* | 50 | £25,780 | £0 | |

**Atodiad 1**

| **Prosiect** | **Sgôr %** | **Cyllid TAP a Gytunwyd** | **Arian Cyfatebol** | **Dyddiad Adolygu** |
|---|---|---|---|---|
| *SIR GYFAN – Safleoedd Diolwg* | 50 | £60,000 | £0 | |
| *RHUTHUN – Strategaeth Arwyddion* | 50 | £40,000 | £100,000 | |
| *ELWY – Llwybr Troed Ffordd Dinbych Isaf* | 40 | £8,860 | £0 | |
| *ELWY – Llwybr Afon Llanelwy* | 15 | £75,000 | £0 | |
| | | | | |
| *Tynnwyd yn ôl* | | | | |
| *ELWY – Cerfluniau Afon Llanelwy* | 0 | £1,000 | £0 | |
| *DYFRDWY – Safle Cyflogaeth Cilmedw* | 0 | £150,000 | £0 | |

**Atodiad 2**

## Meini Prawf Asesu Cynnig Prosiect TAP

**Mae’r Cabinet wedi penderfynu mai dim ond prosiectau niwtral o ran refeniw a ddylai barhau.**

| Meini Prawf | PASIO | METHU |
|---|---|---|
| Lefel hyder bod goblygiadau refeniw y prosiect wedi'u hystyried yn briodol | Mae goblygiadau refeniw CSDd yn y dyfodol wedi eu hystyried yn **llawn** a chyllidebwyd ar eu cyfer | Nid yw goblygiadau refeniw CSDd yn y dyfodol wedi’u hystyried yn briodol ac ni chyllidebwyd ar eu cyfer |

**Os bydd y prosiect yn pasio'r prawf uchod, mae'r meini prawf asesu canlynol yn berthnasol:**

| Meini Prawf | Sgôr 2 | Sgôr 1 | Sgôr 0 |
|---|---|---|---|
| 1. Tystiolaeth o Angen | Tystiolaeth glir a sylweddol o angen am y prosiect wedi’i nodi | Rhywfaint o dystiolaeth o angen wedi’i nodi | Dim tystiolaeth o angen wedi’i nodi |
| 2. Eglurder o ran Allbwn | Mae'n glir ac yn ddiamwys beth fydd y prosiect yn ei gyflawni | Mae amlinelliad o'r hyn y bydd y prosiect yn ei gyflawni wedi’i nodi, ond mae angen eglurder pellach | Nid yw’n glir beth fydd y prosiect yn ei gyflawni |
| 3. Manteision | Mae manteision y prosiect yn glir ac wedi’u cyfleu yn dda ac mae modd eu mesur | Mae manteision cyfyngedig wedi eu nodi | Nid oes unrhyw fanteision clir wedi eu nodi |
| 4. Effaith | Bydd manteision a nodwyd yn effeithio ar nifer sylweddol ac ystod eang o breswylwyr neu fusnesau lleol | Bydd manteision a nodwyd yn effeithio ar “gymuned o angen” (e.e. clwb chwaraeon, grŵp diddordeb lleol, sector busnes penodol) | Nid oes tystiolaeth y bydd manteision yn cael unrhyw effaith sylweddol ar breswylwyr neu fusnesau |
| 5. Blaenoriaethau Corfforaethol/ECA | Cyswllt amlwg ac uniongyrchol â blaenoriaeth gorfforaethol neu brosiect blaenoriaeth ECA | Rhywfaint o gyswllt/cyfraniad i flaenoriaeth gorfforaethol neu brosiect blaenoriaeth ECA | Dim cyswllt/cyfraniad i flaenoriaeth gorfforaethol neu brosiect blaenoriaeth ECA |
| 6. Cyllid Allanol | Prosiect yn denu 50% o gyllid allanol | Prosiect yn denu rhwng 20% a 50% o gyllid allanol | Prosiect yn denu llai na 20% o gyllid allanol |
| 7. Lefel hyder yng nghapasiti/gallu gwasanaeth cyflenwi /sefydliad arweiniol i gyflawni'r prosiect | Uchel - Hyder llawn yng nghapasiti a gallu corff cyflenwi i gyflawni | Canolig – Rhywfaint o hyder yng nghapasiti a gallu corff cyflenwi i gyflawni ond gyda rhywfaint o amheuaeth | Isel – Dim hyder yng nghapasiti a gallu corff cyflenwi i gyflawni |
| 8. Lefel hyder y gall y prosiect gael ei gyflawni o fewn yr amserlenni a ragwelir | Uchel - Hyder llawn y gall allbwn y prosiect gael ei gyflawni o fewn amserlenni a ragwelir | Canolig – Rhywfaint o hyder y gall allbwn y prosiect gael ei gyflawni o fewn amserlenni a ragwelir ond gyda rhywfaint o amheuaeth | Isel – Dim hyder y gall allbwn y prosiect gael ei gyflawni o fewn amserlenni a ragwelir |
| 9. Lefel hyder y gall y prosiect gael ei gyflawni o fewn y costau cyfalaf a ragwelir | Uchel - Hyder llawn y gall allbwn y prosiect gael ei gyflawni o fewn costau cyfalaf a ragwelir | Canolig – Rhywfaint o hyder y gall allbwn y prosiect gael ei gyflawni o fewn costau cyfalaf a ragwelir ond gyda rhywfaint o amheuaeth | Canolig – Dim hyder y gall allbwn y prosiect gael ei gyflawni o fewn costau cyfalaf a ragwelir |

**Atodiad 2**

| Meini Prawf | Sgôr 2 | Sgôr 1 | Sgôr 0 |
|---|---|---|---|
| 10. Lefel hyder y bydd y prosiect yn sicrhau'r cyllid allanol sydd ei angen | Uchel - Hyder llawn y bydd y prosiect yn sicrhau'r cyllid allanol sydd ei angen | Canolig - Rhywfaint o hyder y bydd y prosiect yn sicrhau'r cyllid allanol sydd ei angen ond gyda rhywfaint o amheuaeth | Isel - Dim hyder y bydd y prosiect yn sicrhau'r cyllid allanol sydd ei angen |